# Canfyddiadau athrawon o newidiadau a heriau i les mewn ysgolion

Yn rhan o werthuso'r 'Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol', cyfwelon ni â 36 aelod o staff mewn ysgolion gwahanol i ofyn y canlynol iddyn nhw: **ers Covid, sut mae anghenion y disgyblion wedi newid o ran eu llesiant?** Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdopi'n dda, daeth ambell i her amlwg i'r golwg. Isod, ceir crynodeb o'r hyn a ddywedodd staff yr **Ysgolion Cynradd**:



## *Newidiadau datblygiadol:*

Dywedodd y staff eu bod wedi sylwi ar **gynnydd mewn achosion o broblemau datblygiadol** ymhlith rhai o'u dysgwyr iau. Roedd y rhain yn cynnwys anawsterau lleferydd ac iaith, ynghyd â chynnydd mewn problemau wrth frwsio dannedd a defnyddio'r tŷ bach.

## *Newidiadau cymdeithasol:*

Bu'r staff yn trafod y cynnydd a welwyd yn nifer y dysgwyr a oedd yn ei chael hi'n **anoddach gweithio mewn grwpiau a chyfathrebu â'i gilydd**. Dywedodd eraill bod mwy o ddysgwyr yn ymddangos eu bod wedi colli hyder wrth siarad o flaen eraill yn y dosbarth.





## *Llesiant meddyliol ac emosiynol:*

Dywedodd y staff fod **mwy o ddysgwyr yn dweud eu bod nhw'n dioddef o orbryder yn yr ysgol** yn gyffredinol neu mewn sefyllfaoedd penodol – yn aml mewn mannau prysur. Roedd mwy yn wynebu **heriau o ran rheoleiddio eu hemosiynau a theimlo gorlwytho synhwyraidd**, ac eisiau cefnogaeth, amser a lle penodol i allu rheoli hyn.

DECIPHer
Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd
Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
DECIPHer
Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement
A Public Health Research Centre of Excellence
Cardiff University
Prifysgol Caerdydd
Wolfson Centre for Young People's Mental Health
Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc

# Canfyddiadau athrawon o newidiadau a heriau i les mewn ysgolion (parhad)

Gofynnwyd i'r staff am **yr heriau a wynebwyd wrth iddynt geisio ymateb i'r newidiadau hyn**. Dyma rai o'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg:

## *Mannau Diogel:*

Roedd rhai ysgolion yn creu mannau 'diogel' neu dawel ar i blant oedd angen cymryd seibiant o'r ystafell ddosbarth. Wedi dweud hynny, roedd hyn gan amlaf yn her, naill ai o ganlyniad i **ddiffyg cyllid ac/neu ddiffyg lle yn yr adeilad** i allu rhoi hyn ar waith. Cawsom sawl enghraifft o staff yn talu am adnoddau ar gyfer y mannau hyn gan ddefnyddio eu harian eu hunain.






## *Hyfforddiant a chymorth:*

Roedd ambell aelod o staff yn pryderu am y **diffyg hyfforddiant i fedru ymdrin â materion mwy cymhleth** h.y. iechyd meddwl – arweiniodd hyn at bryderon o ran rhoi'r ymateb 'anghywir' i ddisgyblion. Er bod gan bob un ohonynt gysylltiadau â gwasanaethau arbenigol y tu allan i'w hysgolion, dim ond hyn a hyn o gapasiti sydd gan y gwasanaethau hyn, yn ogystal ag amseroedd aros hir. Golyga hyn fod **yn rhaid i ysgolion geisio delio â mwy o broblemau yn fewnol am gyfnod hirach.**

## *Time:*

Dywedodd pob aelod o staff mai un o'r prif heriau oedd **diffyg amser**. Mewn ysgolion â thimau bugeiliol sy'n llai o faint, mae'r cynnydd yn y galw am gymorth wedi cael effaith sylweddol ar eu hamserlen. O ganlyniad, mewn rhai ysgolion, **roedd gofyn i'r cynorthwywyr addysgu ymdrin â materion mwyfwy cymhleth**. Teimlai sawl ysgol fod rhaid iddynt **fod yn fwy ymatebol** i allu ymdrin â'r hyn oedd yn eu wynebu, yn hytrach na chael amser i allu cynllunio'r ddarpariaeth.

Bu i'r staff hefyd drafod **rheoli a chydbwyso agendâu gwahanol**, ochr yn ochr ag anghenion dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i'r cwricwlwm a chyflwyno mentrau polisi.




DECIPHer Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
DECIPHer Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement A Public Health Research Centre of Excellence
Cardiff University Prifysgol Caerdydd
Wolfson Centre for Young People's Mental Health
Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc